

Cydlynnydd Prosiect Llawrydd Gwasanaeth Gwasgu Afalau Cymunedol

Cefndir

Mae Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian (CARE) yn gymdeithas budd cymunedol wedi'i lleoli yng Nghrymmych, Sir Benfro. Rydym yn dîm o weithwyr rhan-amser cyfeillgar, gweithgar sy'n anelu at gydweithio a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein gweledigaeth o 'gymunedau ffyniannus, wedi'u cysylltu â natur a'n gilydd, gan fwynhau amgylcheddau sy'n llawn bywyd'.

Mae CARE wedi rhedeg [gwasanaeth gwasgu afalau cymunedol symudol](#) am y 4 blynedd diwethaf. Cynhelir digwyddiadau gwasgu afalau mewn neuaddau pentref ledled Sir Benfro rhwng diwedd mis Awst a chanol mis Tachwedd.

Mae CARE yn berchen ar offer gwasgu afalau, ac yn hysbysebu'r digwyddiadau i unigolion ddod ag afalau dros ben i'w gwasgu am ffi fach. Rydym yn cynnwys gwirfoddolwyr o'r cymunedau sy'n ein cynnal, ac rydym yn gweld bod y digwyddiadau hyn yn dod â grwpiau amrywiol ynghyd, o blant, teuluoedd, yr henoed, ffermwyr, i thrigolion newydd a hen.

Yn aml, mae'r cymunedau eu hunain yn rhedeg caffi neu weithgareddau eraill ochr yn ochr â'r gwasgu afalau a all hefyd gynhyrchu diddordeb, gwirfoddolwyr ac incwm i grwpiau a neuaddau lleol bach.

Rydym yn chwilio am rywun i gydlyn digwyddiadau gwasgu afalau yn 2025. Mae hyn yn cynnwys cydlyn digwyddiadau gyda chymunedau, recriwtio gwirfoddolwyr, lledaenu'r gair, rheoli logisteg yn y cyfnod cyn y digwyddiad a bod yn bresennol ar y diwrnod.

Mae angen unigolyn brwdfrydig, trefnus sy'n fedrus wrth weithio ar ei ben ei hun ac fel rhan o dîm ar y rôl hon. Cynhelir y rhan fwyaf o ddigwyddiadau ar benwythnosau, felly bydd argaeledd dros yr hydref yn bwysig.

Efallai y bydd posibilïadau i gymryd mwy o ran mewn prosiectau CARE eraill yn ystod neu ar ôl y prosiect hwn.

Disgrifiad Swydd

- Cydlynu'r gwasanaeth gwasgu afalau i gynnal 6-8 digwyddiad undydd drwy gydol hydref 2025 ledled Sir Benfro.
- Cysylltu â neuaddau/grwpiau cymunedol ynghylch trefnu digwyddiadau gwasgu afalau yn eu lleoliad (mae gennym restr o leoliadau arfaethedig eisoes, ac rydym wedi cael rhai ymholiadau).
- Sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hysbysebu'n eang, cynrychioli amcanion ehangach CARE a gweithio mewn digwyddiadau.
- Cydlynu logisteg digwyddiadau gwasgu afalau, gan gynnwys cwmpasu lleoliadau, symud offer, sefydlu/pacio, storio a datrys problemau.
- Cydlynu a rhedeg y digwyddiadau gwasgu afalau.
- Recriwtio a chydlynu staff a gwirfoddolwyr i helpu i gynnal y digwyddiadau (yn unol â pholisiau recriwtio a chyflog CARE).
- Rheoli'r llogi preifat i unigolion a grwpiau - gan gynnwys trefnu llogi, trosglwyddo offer a'i wirio ar ôl dychwelyd.
- Dylunio a chasglu adborth o'r digwyddiadau.
- Rheoli'r gyllideb.
- Ceisio cyllid parhaus, a rheoli perthnasoedd ariannu a sicrhau bod gofynion monitro a gwerthuso yn cael eu bodloni.
- Adrodd i dîm CARE a Bwrdd Cyfarwyddwyr.
- Cwblhau adroddiadau i gyllidwyr unwaith y bydd y digwyddiadau wedi gorffen.
- Dogfennu dysgu o dymor gwasgu afalau i lywio gweithgareddau yn y dyfodol.

Manyleb Person

- Profiad o reoli/cydlynu prosiectau (neu barodrwydd i ddysgu).
- Gallu i reoli cyllideb a rheoli gofynion adrodd (mae rhywfaint o gefnogaeth ar gael gan staff craidd CARE, ond bydd y rôl hon yn bennaf gyfrifol).
- Profiad o drefnu digwyddiadau.
- Sgiliau rhyngpersonol da.
- Ar gael ar benwythnosau dros yr hydref (Medi - Tachwedd), i gynnal y digwyddiadau.
- Trwydded yrru (yn ddymunol iawn).

- Siaradwr/dysgwr Cymraeg (yn ddymunol iawn).

Telerau swydd

- **Oriau a chyfnod y contract:** 20 diwrnod ar draws Gorffennaf - Tachwedd 2025.
- **Noder:** mae diwrnod yn cyfrif fel 7.5 awr, ond nodwch fod cynnal digwyddiad gwasgu afalau yn cymryd tua 10 awr o waith, i gwmpasu gosod/tynnu i lawr/storio offer.
- **Tâl:** £18.57/awr fel gweithiwr llawrydd hunangyflogedig.
- **Treuliau:** am filltiroedd, deunydd ysgrifennu ac ati. Defnydd o gerbyd cwmni ar brydles ar gael.

Sut i wneud cais

Anfonwch CV syml a llythyr/e-bost yn egluro pam yr hoffech y swydd a'ch profiad perthnasol i admin@cwmarian.org.uk erbyn 20^{fed} Gorffennaf 2025.